**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
**Enterprise and Business Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

22 Chwefror 2013

Annwyl Syr / Madam

**Ymgynghoriad ar y *Bil Teithio Llesol (Cymru)***

Mae Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y ***Bil Teithio Llesol (Cymru).***

**Beth yw Bil?**

O dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall y Cynulliad Cenedlaethol basio cyfreithiau mewn meysydd lle mae ganddo'r pwerau deddfwriaethol i wneud hynny.

Pan gaiff cynnig ar gyfer cyfraith newydd ei gyflwyno yn y Cynulliad Cenedlaethol, caiff ei alw'n 'Fil'.

Mae pedwar cyfnod i'r broses o ystyried Bil. Yng Nghyfnod 1, bydd pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil (sy'n cynnwys cymryd tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan rai sydd â diddordeb a chan randdeiliaid); ac mae Cyfnod 1 hefyd yn cynnwys cael cytundeb y Cynulliad i'r egwyddorion cyffredinol hynny.

Pan gaiff Bil ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol ac ar ôl iddo gael Cydsyniad Brenhinol, mae'n dod yn 'Ddeddf Cynulliad'.

**Beth yw diben y *Bil Teithio Llesol (Cymru)?***

Mae Bil Teithio Llesol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus, a pharatoi mapiau sy'n nodi'r llwybrau presennol a'r llwybrau posibl y gallant eu defnyddio yn y dyfodol. Bydd y Bil hefyd yn nodi bod angen i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn eu camau dylunio.

**Ffon / Tel: 029 2089 8101**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**
**E-bost / E-mail: enterprise.committee@wales.gov.uk**

**Beth y mae'r Bil hwn yn gobeithio ei gyflawni?**

Yn ôl Llywodraeth Cymru, nod y Bil yw galluogi mwy o bobl i gerdded a beicio ac i deithio gan ddefnyddio trafnidiaeth ddi-fodur yn gyffredinol. Mae'r Llywodraeth am i gerdded a beicio ddatblygu fel y dulliau mwyaf naturiol a normal o deithio. Bwriad y Llywodraeth yw y bydd hyn, yn ei dro, yn cynnig rhagor o fanteision iechyd, yn ogystal â chyfrannu at ei nodau ehangach, sef lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, mynd i'r afael â thlodi ac anfantais, a hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy.

**Beth yw rôl y Pwyllgor?**

Rôl y Pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn:

Ystyried:

i) a oes angen Bil i gyflawni'r nod o alluogi mwy o bobl i gerdded a beicio ac i deithio gan ddefnyddio trafnidiaeth ddi-fodur yn gyffredinol;

ii) prif ddarpariaethau'r Bil ac a ydynt yn briodol i gyflawni'r amcanion a nodwyd ynddo;

iii) rhwystrau posibl rhag rhoi'r prif ddarpariaethau ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;

iv) goblygiadau ariannol y Bil;

iv) lefel y manylder a ddarperir ar wyneb y Bil o'i gymharu â'r hyn fydd yn cael ei gynnwys yn y canllawiau yn y dyfodol.

Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig i'w cael ar wefan y Cynulliad yn:

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1242

**Sut y gallwch chi helpu – cwestiynau'r ymgynghoriad**

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ei waith o graffu ar y Bil. Yn benodol, byddem yn croesawu eich sylwadau ar y cwestiynau a restrir yn **Atodiad 1**.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i Pwyllgor.menter@cymru.gov.uk.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Kathryn Thomas, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, Y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn dydd Gwener 5 Ebrill 2013. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.**

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd ymatebion gan y rhai a enwir ar y rhestr atodedig (gweler Atodiad 2). Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe baech yn gallu anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr hon, ond a hoffai, o bosibl, gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu gwybodaeth**


Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os cawn gais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Liz Wilkinson, Clerc y Pwyllgor ar 029 2089 8025 neu Kathryn Thomas, Dirprwy Glerc ar 029 2089 8101.

Yn gywir



**Nick Ramsay AC**

**Atodiad 1**

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. A oes angen Bil i geisio galluogi mwy o bobl i gerdded a beicio ac i deithio gan ddefnyddio trafnidiaeth di-fodur yn gyffredinol? Esboniwch eich ateb.

2. Beth yw eich barn am ddarpariaethau allweddol y Bil, sef -

- y gofyniad bod awdurdodau lleol yn paratoi a chyhoeddi mapiau sy'n nodi llwybrau presennol a llwybrau posibl y gellir eu defnyddio gan gerddwyr a beicwyr yn y dyfodol (a elwir yn "fapiau llwybrau sy'n bodoli" a "mapiau rhwydweithiau integredig") (adran 3 i adran 5);

- y gofyniad bod awdurdodau lleol yn ystyried mapiau rhwydweithiau integredig yn y broses o gynllunio trafnidiaeth leol (adran 6);

- y gofyniad bod awdurdodau lleol yn gwella llwybrau a chyfleusterau ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn barhaus (adran 7);

- y gofyniad bod awdurdodau priffyrdd yn ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr pan fyddant yn creu ffyrdd newydd ac yn gwella ffyrdd (adran 8)?

3. A yw darpariaethau'r Bil wedi ystyried unrhyw ymateb a oedd gennych i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei Phapur Gwyn? Esboniwch eich ateb.

4. I ba raddau y mae darpariaethau allweddol y Bil y ffordd fwyaf priodol o gyflawni ei nod?

5. Beth yw'r rhwystrau posibl o ran gweithredu'r darpariaethau allweddol, ac a yw'r Bil yn ystyried y rhwystrau hynny?

6. Beth yw eich barn chi ar oblygiadau ariannol y Bil (naill ai ar gyfer eich sefydliad chi neu yn fwy cyffredinol)? Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai yr hoffech ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad o'r Effaith) sy'n amcangyfrif costau a manteision gweithredu'r Bil.

7. I ba raddau y cyflawnwyd y cydbwysedd cywir rhwng y manylion a ddarparwyd ar wyneb y Bil a'r manylion a gaiff eu cynnwys mewn canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru?

8. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil, nad ydynt wedi'u cynnwys yn eich ymateb?

**Atodiad 2**

**Pobl / Sefydliadau i gysylltu â hwy i gael tystiolaeth ysgrifenedig:**

*Wedi ymateb i Bapur Gwyn y Llywodraeth ar y Bil Teithio Llesol (Cymru) neu wedi bod mewn digwyddiad i randdeiliaid.

**Llywodraeth Leol**

Pob Awdurdod Lleol yng Nghymru

Un Llais Cymru

Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Walking/Cycling**

Rhoscycling*

BikeAbility Wales*

Cyclists Touring Club

Cyclecity Guides*

Hyfforddiant Beicio Cymru

Campbell Coaching*

Cardiff Cycling Campaign*

Clyne Riders*

CTC (Yr Elusen Feicio Genedlaethol)*

Cycling Embassy of Great Britain*

Cycling Projects*

Dutch Cycling Embassy

Grŵp Beicio Ely Wheelies*

Ffederasiwn Beicwyr Ewropeaidd

Offroad Cycling*

Pedal Power*

Rainbow Community Enterprise Ltd*

Y Cerddwyr*

Sustrans*

Swansea and Gower Riders*

Grŵp Rheolwyr Hawliau Tramwy Cymru *

Wheelrights*

**Trafnidiaeth**

AA

ACT TravelWise*

BayTrans*

Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr

Campaign for Better Transport

Bws Caerdydd*

Capital Traffic Management Ltd*

Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth *

Network Rail*

Passenger Transport Executive Group

Railway Paths Ltd*

Railfuture*

Transport for London

Transport Research Laboratory*

Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant*

**Iechyd cyffredinol**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg *

Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)*

Tîm Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro *

Journeys Towards Recovery*

Cymorth Canser Macmillan *

National Heart Forum*

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol *

Iechyd Cyhoeddus Cymru *

Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro *

Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru *

Grŵp Bwyta'n Iach a Bod yn Fwy Gweithgar Wrecsam *

**Yr Amgylchedd**

Cymdeithas Mynyddoedd Cambria *

Canal and River Trust*

Cyngor y Parciau Cenedlaethol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru *

Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd

Campaign for National Parks*

Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig *

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA)*

AHNE Dyffryn Clwyd a Bryniau Dyfrdwy *

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru *

Cyfeillion y Ddaear *

Ffrindiau Parc Cenedlaethol Penfro *

Y Blaid Werdd*

Groundwork Cymru*

Cadwch Gymru'n Daclus *

Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru

Monmouthshire Environment Partnership*

Fforwm Mynediad Cenedlaethol *

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol *

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Newport Pembrokeshire Paths Group*

Open Spaces Society*

Redspearlands Footpath Group*

RSPB Cymru*

WWF Cymru*

**Ymgyngoraethau**

Atkins Global*

Cartwright Associates*

Capita Symonds*

Deryn Consulting*

Halcrow Group Ltd*

Inclusive Design for Getting Outdoors*

M&G Barry Consulting*

Phil Jones Associates*

**Cyrff Proffesiynol**

Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru *

Institute of Public Rights of Way and Access Management Ltd*

RPTI Cymru*

Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig

**Cydraddoldeb, anableddau a phlant**

Cynghrair Henoed Cymru *

Age Cymru (Age Concern Cymru yn wreiddiol)*

Plant yng Nghymru *

Comisiynydd Plant Cymru *

Anabledd Cymru *

Diverse Cymru*

Y Ddraig Ffynci

Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion*

Chwarae Cymru

RNIB Cymru*

Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid

Youth Cymru*

**Iechyd a Diogelwch**

Brake*

Living Streets*

Parliamentary Advisory Council for Transport Safety*

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau yng Nghymru (ROSPA)*

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

**Academyddion ac ymchwilwyr**

Prifysgol Aberystwyth*

Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd *

Prifysgol Caerdydd, Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer)*

Y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Adfywio *

Prifysgol Caerhirfryn*

Prifysgol Abertawe

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Prifysgol Dwyrain Llundain, Sustainable Mobilities Research Group*

**Eraill**

Ysgol Gynradd Ynys y Barri

British Driving Society (cymdeithas gyrru car a cheffyl)*

Cymdeithas Ceffylau Prydain *

Tai Cymunedol Bron Afon *

BT Cymru*

Cymunedau yn Gyntaf*

Equestrian Wales*

NAHT Cymru*

Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau Mwyaf Gogledd Cymru*

Tai Gogledd Cymru *

NUT Cymru*

Awdurdodau Heddlu Cymru

Y Post Brenhinol *

Croeso Cymru *

Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru